

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>CYNGOR SIR YNYS MON</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>27 HYDREF 2020</b>
<b>PWNC:</b>	<b>DATGANIAD CYFRIFON 2019/20</b>
<b>DEILYDDION PORTFFOLIO:</b>	<b>CYNGHORYDD ROBIN W. WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO (CYLLID)</b>
<b>SWYDDOGION SY’N ARWAIN:</b>	<b>R MARC JONES</b>
<b>SWYDDOGION CYSWLLT:</b>	<b>CLAIRE KLIMAZEWSKI</b> <a href="mailto:ClaireKlimazewski@ynysmon.gov.uk">ClaireKlimazewski@ynysmon.gov.uk</a>

### Natur a rheswm dros adrodd

Blaen adroddiad ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon, yn nodi'r prif faterion sy'n codi ers cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Drafft 2019/2020.

### 1. Cefndir

- 1.1 Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon Drafft 2019/20 Cyngor Sir Ynys Môn i archwilyr allanol y Cyngor ar gyfer eu harchwilio ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi ei gwblhau yn sylweddol a chyhoeddwyd adroddiad yr Archwiliwr, ac mae nifer fach o ddiwygiadau i'r drafft wedi'u hymgorffori yn y Cyfrifon.
- 1.2 Ar yr amod y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn eu cadarnhau, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor a'u cyhoeddi ar ôl derbyn Barn yr Archwiliwr.

### 2. Ansawdd y Broses

- 2.1 Mae'r dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau Datganiad Cyfrifon 2019/20 wedi ei gyrraedd unwaith eto. Roedd newid i'r dyddiad cwblhau'r archwiliad eleni o 15 Medi 2020 i 30 Tachwedd 2020 oherwydd y pandemig Covid-19.
- 2.2 Mae gwelliannau wedi eu gwneud a gafodd eu hadnabod gan y broses archwilio'r llynedd ac mae'r gwelliannau hyn wedi parhau. Cafodd yr holl faterion a godwyd drwy gydol y broses archwilio eu delio â nhw yn brydlon ac mewn modd boddhaol. Cynhyrchwyd y papurau gwaith i safon uchel.

### 3. Diwygiadau i'r Cyfrifon ers y Drafft ar 15 Mehefin 2020

- 3.1 Mae'r manylion am y prif diwygiadau i'r cyfrifon drafft i'w gweld yn Adroddiad yr Archwiliwr yn Atodiad 3. Proseswyd yr holl ddiwygiadau y cytunwyd oedd hangen eu hail-ddatgan gan Deloitte ac maent wedi eu cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.
- 3.2 Nid oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r datganiad drafft. Ar y cam yma, ni wnaed unrhyw newidiadau i refferniw na chyfalaf, felly, mae'r prif ddatganiadau ariannol yn parhau'r un fath.

#### **4. Argymhellion yr Archwiliwr**

**4.1** Mae'r Archwilyr, yn dilyn eu gwaith ar y Datganiad Cyfrifon, wedi gwneud :-

Un argymhelliad mewn perthynas â materion TGCh.

**4.2** Mae'r argymhelliad yma wedi ei gynnwys yn Adroddiad yr Archwiliwr yn Atodiad 3.

#### **5. Argymhellion**

**5.1** Derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2019/20 a rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog Adran 151 lofnodi'r cyfrifon.

**5.2** Nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019/20 a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.